

Tablau

Gwnewch grid tablau fel hwn.

1	2	3	4	5	6	7	8	9	10
2	4	6	8	10	12	14	16	18	20
3	6	9	12	15	18	21	24	27	30
4	8	12	16	20	24	28	32	36	40
5	10	15	20	25	30	35	40	45	50
6	12	18	24	30	36	42	48	54	60
7	14	21	28	35	42	49	56	63	70
8	16	24	32	40	48	56	64	72	80
9	18	27	36	45	54	63	72	81	90
10	20	30	40	50	60	70	80	90	100

- ◆ Lliwiwch y ffeithiau tablau y mae eich plentyn yn eu gwybod, 1, 2, 3, 4, 5 a 10 yn fwy na thebyg.
- ◆ Mae rhai ffeithiau yn ymddangos ddwywaith, e.e. 7×3 a 3×7 , felly croeswch allan un o bob un.
- ◆ Ydych chi'n synnu cyn lleied o ffeithiau sydd ar ôl?
- ◆ Efallai mai dim ond 10 ffaith sydd i'w dysgu. Felly, cymerwch un ffaith bob dydd a gwneud rhigwm digri gyda'ch gilydd er mwyn helpu'r plentyn i'w ddysgu
e.e. naw saith yw chwe deg tri, nawr am lot o hwyl a sbri!


Her y rhifau ffôn

- ◆ Rhowch her i'ch plentyn i ddod o hyd i rifau yn y llyfr ffôn lle mae'r digidau yn adio i wneud 42.
- ◆ Dowch o hyd i gymaint ag sy'n bosib mewn 10 munud.
- ◆ Ar ddiwrnod arall, beth am weld a all guro'r cyfanswm blaenorol?

Ffôn: 01264 738 281


Targedu 1000

- ◆ Rholiwch ddis 6 gwaith.
- ◆ Defnyddiwch y chwe digid i wneud dau rif tri digid.
- ◆ Adiwch y ddau rif at ei gilydd.
- ◆ Pa mor agos at 1000 allwch chi gyrraedd?



Targedau i ddisgyblion Blwyddyn 5

YGG Castell-nedd



Llyfryn i rieni

Rhoi help llaw gyda mathemateg eich plentyn

Targedau – Blwyddyn 5₂

Erbyn diwedd Blwyddyn 5, bydd y rhan fwyaf o blant yn gallu ...

- Lluosi a rhannu unrhyw gyfanrif hyd at 10 000 â 10 neu 100.
- Gwybod beth yw arwyddocâd y digidau mewn rhif degol, e.e. mae'r 6 yn 2.63 yn golygu 6 degolyn a'r 3 yn golygu 3 chanfed.
- Talgrynnu rhifau ag 1 lle degol i'r cyfanrif agosaf, e.e. bydd 9.7 yn talgrynnu i 10, a bydd 147.2 yn talgrynnu i 147.
- Defnyddio rhannu i ddod o hyd i ffracsiwn rhif, e.e. dod o hyd i bumed drwy rannu â 5.
- Cyfrifo yn eu pen y gwahaniaeth rhwng dau rif fel 3994 a 9007.
- Defnyddio papur a phensil i adio a thynnu rhifau mawr, e.e. $5792 + 8436$, $13\,912 - 5829$.
- Gwybod yr holl dablau llusgi hyd at 10×10 ar eu cof.
- Dyblu rhifau hyd at 100 yn eu pen.
- Defnyddio papur a phensil i luosi a rhannu, e.e. 328×4 , 72×56 , $329 \div 6$.
- Tynnu llinellau a'u mesur i'r milimetr agosaf.
- Cyfrifo perimedr ac arwynebedd petryal, e.e. perimedr ac arwynebedd clawr llyfr sy'n mesur 25cm wrth 20cm.
- Datrys problemau geiriau ac esbonio'u dull.

Y targedau

Mae'r targedau hyn yn dangos rhai o'r pethau y dylai plant allu eu gwneud erbyn diwedd Blwyddyn 5.

Mae'n bosib bod targed yn fwy anodd mewn gwirionedd, e.e. efallai y bydd plant yn tynnu 3994 o 9007 drwy ysgrifennu mewn colofnau heb sylweddoli ei bod yn haws cyfrif ymlaen o 3994 i 9007 yn eu pen.

Gweithgareddau hwyl i'w gwneud gartref

Rhifau ceir


- ◆ Ceisiwch ddarllen rhif car fel mesuriad mewn centimetrau, yna ei newid i fetrau, e.e. 456cm, sef 4.56m, neu 4m a 56cm.
- ◆ Ceisiwch wneud hyn gyda rhifau ceir â sero ynddynt, e.e. 307cm, sef 3.07m neu 3m a 7cm; 370cm, sef 3.7m, neu 3m a 70cm. Mae'r rhain yn fwy anodd!

Tynnu gyda dis

- ◆ Cymerwch dro i rollo dis ddwywaith.
- ◆ Llenwch y bocsys sy'n wag.

$$400\Box - 399\Box$$

e.e. $4002 - 3994$



- ◆ Cyfrifwch ymlaen o'r rhif lleiaf i'r rhif mwyaf, e.e. 3995, 3996, 3997, 3998, 3999, 4000, 4001, 4002.
- ◆ Fe gyfrifoch ymlaen 8, felly rydych chi'n sgorio 8 pwynt.
- ◆ Cadwch gyfanswm o'ch pwyntiau wrth fynd ymlaen.
- ◆ Y cyntaf i gyrraedd 50 pwynt neu fwy sy'n ennill.